Cyhoeddi gwiriadau trosglwyddadwy am ddim i wirfoddolwyr

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd y gwasanaeth diweddaru newydd ar gael yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr.

O'r gwanwyn hwn ymlaen ni fydd rhaid i unigolion wneud cais am wiriad cofnod troseddol newydd bob tro maent yn ymgeisio am rôl neu swydd. Yn hytrach, dim ond un cais am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) y bydd angen iddynt ei wneud ac yna gallant fynd arlein i gael gwiriad ar unwaith er mwyn cael gwybod a yw'r dystysgrif bresennol dal yn gyfredol. Bydd y gwasanaeth diweddaru newydd hefyd yn galluogi mudiadau i wirio arlein a oes gwybodaeth newydd wedi'i hychwanegu at y dystysgrif ers ei rhoi hi. I lawer o wirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig bydd hyn yn golygu mai dim ond un dystysgrif y bydd arnynt ei hangen ar gyfer gweithgareddau mewn mwy nag un mudiad cyn belled â'i bod yn ymwneud â'r un grŵp bregus.

Golyga hyn na fydd rhaid i unigolion bellach wneud cais am fwy nag un gwiriad i weithio gyda gwahanol fudiadau, a bydd gwirfoddolwyr yn gallu defnyddio'r gwasanaeth am ddim wrth ymgeisio am wahanol gyfleoedd gwirfoddoli. Fe fydd yna ffi tanysgrifio blynyddol i weithwyr cyflogedig a fydd yn llai na chost gwiriad newydd.

Mae disgwyl i'r system ddiweddaru fod yn barod erbyn gwanwyn 2013 ochr yn ochr â chyflwyno tystysgrif un cyhoeddiad i'r gwirfoddolwr neu'r gweithiwr cyflogedig yn unig. Ni fydd y mudiad sy'n eu cyflogi bellach yn cael ei gopi. Serch hynny, bydd UCT yn gallu edrych arlein i weld a yw tystysgrif wedi'i rhoi ac a yw hi'n glir. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig byddwn hefyd yn gallu gofyn i gael copi wedi'i anfon yn uniongyrchol i UCT er defnydd y cyflogwr.

I gael mwy o wybodaeth http://www.homeoffice.gov.uk/agencies-public-bodies/dbs/

Mae UCT WCVA bob amser wrth law i ateb unrhyw ymholiadau a gellir cysylltu â ni drwy ☎**0800 0 197 391** **cru@wcva.org.uk** **www.wcva-cru.org.uk**